

YMARFER 1 i'r Saesneg: Sylwadau

Mae'n bur debyg na fyddai'r Wladfa ym Mhatagonia wedi cael ei sefydlu yn 1865 oni bai am haelioni ariannol un Gymraes, sef Anne Lloyd, gwraig Michael D Jones. Cyfrannodd Anne dros £2,000 i dalu am long y Mimosa, a thalodd dreuliau nifer o'r ymfudwyr tlawd hefyd. Ond fel ei gŵr, aros yng Nghymru wnaeth Anne, heb fentro ei bywyd ar y paith.¹ Pwy, felly, oedd y merched a aeth i Batagonia, yn ddall neu'n ddewr, yn y gobaith o ddarganfod bywyd gwell i'w teuluoedd?

O'r rhestrau sydd ar gael credir bod oddeutu 40 o ferched dros 18 oed ar fwrdd y Mimosa. Yn eu mysg roedd Elisabeth Hughes o Lanuwchllyn, a hwyliodd gyda'i gŵr a'u pedwar plentyn. O fewn tri mis roedd dau o'r plant wedi marw², ac ymhen blwyddyn roedd ei gŵr yntau wedi marw ar ôl croesi'r paith mewn niwl a glaw yn tywys defaid.

Nid eithriad yw'r hanes hwn³; roedd y merched o Gymru yn wynebu anhwylderau difrifol a phrofedigaethau yn ddyddiol. Mae gwrhydri'r arweinwyr gwrywaidd wedi cael sylw haeddiannol ar hyd y blynyddoedd, ond ni ddylem anghofio dewrder tawel y mamau a fu'n llafurio ac yn aberthu cymaint hefyd⁴. Ers y blynyddoedd cynnar, canmolwyd y croeso a gâi ymfudwyr newydd ar yr aelwydydd Cymreig.⁵ Ganrif a hanner yn ddiweddarach, mae nifer o bobl ifanc o Gymru sy'n dod ar eu gwyliau i'r Wladfa⁶ wedi profi caredigrwydd disgynyddion y merched cyntaf hynny a adawodd wlad eu mebyd⁷ gan wynebu caledi na allwn ni ei amgyffred⁸.

[addasiad o erthygl yn *Y Wawr*]

1. Ystyr **Ond fel ei gŵr, aros yng Nghymru wnaeth Anne, heb fentro ei bywyd ar y paith.**

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *But, as her husband, Anne was to remain in Wales, without venturing to live on the prairie.*
2. *But, like her husband, Anne remained in Wales and never ventured forth to a life on the pampas.*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *However, like her husband, Anne remained in Wales, not risking her life on the prairie.'*

SYLWADAU:

1. Mae Afl.1 wedi camddehongli 'fel' ac wedi cymylu'r ystyr yn llwyr. *Like* nid *as* sy'n gywir yn y cyd-destun hwn.
2. Mae Afl.1 ac Afl.2 wedi newid ystyr rhan olaf y frawddeg, ac Afl.2 wedi gor-gyfieithu. Nid 'mentro i fyw ar y paith' sydd yn y gwreiddiol ond '**heb fentro ei bywyd ar y paith**'.

2. Cywair O fewn tri mis roedd dau o'r plant wedi marw...

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *Within three months, two of the children were deceased.*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *Within three months two of the children had died.*

SYLWADAU:

1. Mae'r defnydd o *deceased* yn y frawddeg aflwyddiannus uchod yn ddewis anaddas ac yn enghraifft o duedd i fynd am y geiriau 'mawr' lle byddai gair cyffredin yn ddewis mwy naturiol. Y canlyniad yw bod y cyfieithiad yn swnio'n glogyrnaidd ac yn chwithig.

3. Cywair Nid eithriad yw'r hanes hwn...

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *This story is not an exception.*
2. *This is not an exceptional tale.*
3. *This story is not the exception.*
4. *This tale isn't an exception.*
5. *There is nothing exceptional to this story.*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *This story is no exception.*

SYLWADAU:

1. Dyma enghraifft arall o fethu â 'chlywed' cyweiriau'r iaith darged, a throsi slafaidd o'r gwreiddiol. Mae dweud bod rhywbeth yn *no exception* yn ymadrodd cyfarwydd iawn yn Saesneg. Mae Afl.2 ac Afl. 5 wedi camliwio'r ystyr, ac mae defnyddio *tale* yn Afl.4 yn gamarweiniol gan fod mwy o awgrym stori ffug yn 'tale' nag yn 'story'.

4. Cystrawen / Cywair ...ond ni ddylem anghofio dewrder tawel y mamau a fu'n llafurio ac yn aberthu cymaint hefyd.

Cyfieithu Aflwyddiannus:

1. *...but we ought not to forget the silent bravery of the mothers who worked tirelessly and also made great sacrifices.*
2. *...but we shouldn't forget the quiet bravery of the mothers who worked and sacrificed also.*
3. *...but we shouldn't forget the undisclosed bravery of the mothers that also worked and sacrificed so much.*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *...but we should not forget the quiet courage of the mothers who also laboured and sacrificed so much.*

SYLWADAU:

1. Roedd yn glir yng nghyd-destun y stori, yn enwedig o ddarllen cymal cyntaf y frawddeg am yr 'arweinwyr gwrywaidd', fod 'hefyd', wrth gyfeirio at lafur ac aberth y mamau, yn gosod hynny gyfwerth â llafur ac aberth y dynion. Felly, mae lleoliad *also* yn Afl.1 yn camliwio ystyr y gwreiddiol, ac yn cyfleu ar gam nad yw'r llafur a'r aberth yn berthnasol i'r dynion. Mae lleoliad *also* yn Afl.2 yn glogyrnaidd, a does dim rheswm ei roi ar ddiwedd y frawddeg.
2. Mae mwy o ôl chwys ar 'llafurio', ac mae iddo rym cryfach na dim ond 'gweithio'. Felly, nid yw 'work' yn addas ynddo'i hun, fel yn Afl.2 ac Afl.3. Nid yw *worked tirelessly* gystal dewis â *laboured* ychwaith, gan nad yr un peth yn union yw 'gweithio'n ddi-flino' â 'llafurio'.
3. Mae Afl.2 wedi ymatal rhag cyfieithu 'cymaint', ac mae hynny eto yn camliwio'r ystyr am fod y grym mynegiannol *so much* yn eisiau yn y frawddeg.
4. Mae'n bosibl mai'r rheswm dros ddefnyddio *undisclosed* i drosi 'tawel' yn Afl.3 yw gwrthgyferbynnu â'r sylw a roddwyd i'r arweinwyr gwrywaidd, ond dyma enghraifft o gyfieithu gorymhleth a thrwy hynny gamliwio'r ystyr.
5. Sylwch ar y ferf *ought* yn Afl.1. Mae iddo'r un ystyr â 'should' i bob pwrpas, ond mae ychydig yn fwy grymus, ee 'they ought to respect the law'. 'Should' a ddefnyddir gan amlaf erbyn hyn.

5. Ystyr

Ers y blynyddoedd cynnar, canmolwyd y croeso a gâi ymfudwyr newydd ar yr aelwydydd Cymreig.

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *In the early years, there was praise for the welcome that was afforded to new migrants within the Welsh homesteads.*
2. *Since the early days, the welcoming of new migrants to the Welsh residence has been praised.*
3. *Since the early years, praise was given to the welcome received by emigrants in the homes of the Welsh.*
4. *Ever since the early years, praise was given to the welcome that migrants received in Welsh households.*
5. *Since the early years, the welcome that new emigrants received in Welsh homes was praised.*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *The welcome afforded to new emigrants in the Welsh homes has been commended since the early years.*

SYLWDAU:

1. Mae Afl.1 wedi dehongli 'Ers y blynyddoedd cynnar' fel 'yn y blynyddoedd cynnar', ac mae hynny wedi newid ystyr y frawddeg yn llwyr.
2. Mae *the welcoming of* yn Afl.2 yn glogyrnaidd ac yn camliwio'r ystyr.
3. Sylwch ar y camddefnydd o amser y ferf yn y rhan fwyaf o'r

enghreifftiau aflwyddiannus uchod. Nid **was** sy'n briodol, ond **has been** fel sydd yn yr enghraifft llwyddiannus. Mae 'was' yn rhywbeth a ddigwyddodd ar ryw adeg yn y gorffennol tra bod 'has been' yn rhywbeth a ddechreuodd yn y gorffennol, ac sy'n parhau.

4. Sylwch ar y modd y mae'r enghreifftiau aflwyddiannus yn dilyn trefn y Gymraeg yn slafaidd, a chymaint yn fwy naturiol yw cystrawen y Saesneg yn y frawddeg llwyddiannus.

5. Gwylwch rhag mynd am y geiriau 'mawr' lle byddai gair mwy cyffredin yn gweddu'n well. Dyna a wnaeth Afl.1 ac Afl.2 uchod ac wrth wneud hynny, methu â throsi **'yr aelwydydd Cymreig'** yn gywir.

6. Mae dryswch hefyd ynghylch y gwahaniaeth rhwng 'emigrants' a 'migrants'. Pobl sy'n symud o un man i fan arall yw 'migrants', a phobl sy'n symud o un wlad i wlad arall yw 'emigrants'. Felly, mae Afl.1, er enghraifft, **new migrants within the Welsh homesteads** yn cyfeirio at bobl yn symud o le i le o fewn tiroedd neu ffermydd y Cymry, sy'n gwbl gamarweiniol.

6. Cywair

Ganrif a hanner yn ddiweddarach, mae nifer o bobl ifanc o Gymru sy'n dod ar eu gwyliau i'r Wladfa...

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *A century and a half later, many young Welshmen holidaying in Y Wladfa...*
2. *One and a half centuries later, many young people from Wales who come on their holidays to the Welsh colony...*
3. *A century and a half later, a lot of youngsters from Wales who come on their holidays to the settlement...*
4. *A century and a half later, many a youngster from Wales coming to the Welsh colony on holiday...*
5. *Half a century later, many young people from Wales coming to the colony on holiday...*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *A century and a half later, a number of young people from Wales visiting the Welsh settlement on holiday...*

SYLWADAU:

1. Sylwch ar drefn glogyrnaidd y cyfieithiad o '**ganrif a hanner**' yn Afl.2. Mae **century and a half** yn fwy naturiol. Does dim o'i le ar ddweud 'a hundred and fifty years' ychwaith, ac weithiau gallai hynny fod yn fwy priodol. Sylwch hefyd ar y gwall teipio - **centuary** - yn Afl.4.
2. Mae **young people** yn ymadrodd mor gyfarwydd yn Saesneg, fel bod defnyddio **youngster** a **youngsters** yn taro'n chwithig, ac mae **Welshmen** yn Afl.1 yn gamarweiniol am nad yw'n gynhwysol.
3. Mae **a lot of** yn Afl.3 yn ymadrodd rhy anffurfiol a llafar yn y cyd-destun hwn.
4. Cofiwch mai ystyr 'nifer' yw 'number' ac mai 'llawer' yw 'many'.

7. Ystyr /
Cywair

...wedi profi caredigrwydd disgynyddion y merched cyntaf hynny a adawodd wlad eu mebyd...

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *...have touched upon the kindness of those early female descendants that left the country of their infancy...*
2. *...have paid testament to the kindness of the ancestors of those first women who left their homeland...*
3. *...have experienced the kind posterity of the early women; those who left their childhood land...*
4. *...have experienced kindness from descendents of those first women who left their homeland...*
5. *...have experienced the kindness of the decedents of those very first women who left their homelands...*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *...have experienced the kindness of the descendants of those first women who left their homeland...*
2. *...have experienced the kindness of the descendants of those early women who left their motherland...*

SYLWADAU:

1. Parodd '**disgynyddion y merched cyntaf hynny**' drafferth i lawer. Yr ystyr yma yw'r bobl a ddaeth ar ôl y merched cyntaf hynny a ymfudodd i'r Wladfa. Mae'r ystyr yn Afl.1 yn garbwl, ac yn cyfleu mai disgynyddion benywaidd cynnar oedd y rhai a adawodd Gymru. Mae Afl.2 wedi drysu rhwng 'ancestors' a 'descendants', gan newid yr ystyr yn llwyr. Mae Afl.3 wedi defnyddio *posterity* am '**disgynyddion**' mewn cyd-destun cwbl amhriodol. Mae fel arfer yn cael ei ddefnyddio yn y cyd-destun 'keep something for posterity'. Sylwch ar y modd y mae'r gwallau teipio yn Afl.4 ac Afl.5 yn newid yr ystyr. Ystyr *descendants* yw 'yn deillio o ragflaenwyr'; *decedents* yw pobl sydd wedi marw.

2. Sylwch ar y cyfieithiad o '**wedi profi caredigrwydd**' yn Afl.1 ac Afl.2. Ystyr *touched upon* yw crybwyll rhywbeth yn gryno, fel rheol wrth gyfeirio at ryw beth arall. Nid yw'n gwneud synnwyr yn y cyd-destun hwn. Mae Afl.2 yn awgrymu, ar gam, fod y bobl ifanc a fu ar eu gwyliau yn y Wladfa wedi talu teyrnged i hynafiaid y merched cyntaf.

3. Mae cyfieithiad Afl.1 ac Afl.3 o '**gwlad eu mebyd**' yn slafaid, a sylwer ar yr effaith a mae'r ffurf luosog *homelands* yn Afl. 5 yn ei chael ar yr ystyr.

8. Ystyr /
Cywair

...gan wynebu caledi na allwn ni ei amgyffred.

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *...facing hardship that we cannot apprehend.*
2. *...by facing hardship that we cannot conceive.*
3. *...to face hardship that we couldn't comprehend.*

4. *...and faced hardship that we cannot but imagine.*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *...to face hardships that we cannot possibly imagine.*

2. *...and faced hardships beyond our comprehension.*

SYLWADAU:

1. Sylwch ar y defnydd o *apprehend* yn Afl.1. Ystyr mwyaf cyffredin 'apprehend' yw 'arestio rhywun am drosedd', er y gellir ei ddefnyddio i olygu 'canfyddiad' neu 'ddealltwriaeth' hefyd. Sylwch hefyd ar y modd y mae defnyddio *by* i drosi 'gan' yn Afl.2 yn cymylu'r ystyr.

2. Nid yw'r ferf negyddol *couldn't* yn Afl.3 yn briodol. Defnyddir 'couldn't' ('could not') wrth gyfeirio at orffennol sydd wedi dod i ben ee 'I could not see through the mist'. Defnyddir 'cannot' i gyfleu bod rhywbeth yn amhosibl a bod hynny'n parhau, ee 'I cannot see through the mist'.

3. Mae ystyr y cymal yn newid yn llwyr yn Afl.4 gyda'r arddodiad *but*, ac yn awgrymu ein *bod* ni'n gallu dychmygu'r caledi a wynebodd y merched.

* **Cywirdeb**

Cafwyd sawl gwall sillafu a theipio:

- centuary – century
- decedents / descendents – descendants
- county of birth – country of birth

Cyfeiriwyd at rai o'r rhain eisoes yn y sylwadau uchod.

**

SYLWADAU CYFFREDINOL

Mae'r enghreifftiau aflwyddiannus yn yr ymarfer hwn yn dangos mor bwysig yw ymgylfarwyddo ag ystyr gair neu ymadrodd a deall ym mha gyd-destun i'w ddefnyddio. Rhaid gallu 'clywed' teithi'r iaith i'w throsi'n llwyddiannus ac un ffordd o wneud hynny yw darllen yn eang. Dylech olygu eich gwaith yn drwyadl bob amser, a chadarnhau sillafiad unrhyw air nad ydych yn siŵr ohono.